

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Gentle Dental
Aberdâr**

9 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy'r

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o flaen llaw yn Gentle Dental, 7 Sgwâr Victoria, Aberdâr, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 9 Rhagfyr 2014.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Gentle Dental yn darparu gwasanaethau GIG yn bennaf, a rhai gwasanaethau preifat, i gleifion yn ardal Aberdâr yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr practis, dau ddeintydd, un deintydd dan hyfforddiant (sy'n disgwyl dechrau), a phedair nyrs (gan gynnwys un dan hyfforddiant), ac mae dwy o'r rhain hefyd yn gweithio yn y dderbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Gwynnu dannedd
- Dannedd gosod
- Coronau

Mae Gentle Dental wedi ymgeisio i fod yn bractis hyfforddi ar gyfer deintydd sydd newydd gymhwyso, ac sydd ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan Ddeoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Mae gan y practis gynlluniau hefyd i ddarparu gwasanaeth orthodontig a mewnbhaniadau deintyddol².

² Mae mewnbhaniadau deintyddol yn wreiddiau artiffisial i ddannedd a osodir yn yr ên i ddal dant amnewid neu bont.

4. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut mae Gentle Dental Aberdâr yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn nogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Daethom o hyd i dystiolaeth fod y practis yn asesu safbwyntiau cleifion ac yn gweithredu yn eu cylch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC.

Canfuom fod y practis yn darparu gwasanaeth diogel i gleifion a bod ganddo systemau addas i amddiffyn cleifion rhag croes-heintiad.

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gan reolwr y practis a'r prif ddeintydd, ac roedd ganddo systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.

Canfuom fod y practis yn lân a thaclus yn gyffredinol, a'i fod yn amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Gwnaethom nodi bod y practis yn cael ei gyfyngu gan gynllun yr adeilad.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Daethom o hyd i dystiolaeth fod y practis yn asesu safbwyntiau cleifion ac yn gweithredu yn eu cylch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC.

Cwblhawyd dau ar bymtheg o holiaduron cleifion AGIC cyn dyddiad yr arolygiad. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon, yn gyffredinol, ar ansawdd y gofal a gawsant. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran gweld deintydd. Dywedodd cleifion eu bod yn teimlo bod y staff wedi eu croesawu, a gwelsom staff y dderbynfa a staff nyrsio yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau gan y cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rydw i'n nerfus iawn ynghylch dod at y deintydd, mae fy neintydd yn tawelu fy meddwl. Mae staff y dderbynfa bob amser yn garedig a pharod eu cymwynas."

"Mae'r deintydd yn dda iawn. Mae'r derbynnydd bob amser yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar."

"Tîm deintyddol da i mi a'm teulu."

"Maen nhw bob amser yn tawelu fy meddwl ac yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddigon o wybodaeth am y driniaeth."

"Mae'r deintyddion a staff y dderbynfa yn garedig iawn a pharod iawn eu cymwynas; caiff unrhyw broblemau eu datrys ar unwaith mewn ffordd garedig iawn."

"Triniaeth dda, deintydd dymunol"

Dywedodd yr holl gleifion fod y deintydd yn esbonio'r driniaeth yr oedd angen arnynt mewn digon o fanylder; dim ond un claf a ddywedodd mai "weithiau" yr oedd yn derbyn digon o wybodaeth. Dywedodd y deintydd wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion a bod ganddynt gyfle i ofyn cwestiynau. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a chanfod cofnodion yn nodi opsiynau triniaeth a drafodwyd â chleifion. Dywedodd un claf wrthym, "ydy, mae

fy neintydd yn rhoi esboniad da o'm triniaeth ac yn sicrhau fy mod i'n deall yr hyn rydw i ar fin ei dderbyn".

Dywedodd deuddeg o gleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau', ond dywedodd saith claf nad oeddent yn sicr. Roedd rhif ffôn argyfwng ar gyfer gwasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau' wedi'i arddangos yn glir yn ffenestr y practis, a dywedodd cleifion wrthym fod neges ar beiriant ateb y practis yn rhoi rhif. Gwnaethom ffonio'r practis y tu allan i oriau er mwyn cadarnhau bod hyn yn wir.

Roedd gan y practis bolisi i gleifion ar leisio cwynion, ac roedd hwn wedi'i arddangos yn y dderbynfa. Dywedodd tri chlaf ar ddeg nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, dywedodd cleifion hefyd nad oedd ganddynt reswm i gwyno, ac y byddent yn hapus i fynd at staff gydag unrhyw bryderon. O ystyried y sylwadau a gafwyd, efallai y byddai'r practis yn dymuno archwilio sut mae cleifion yn derbyn gwybodaeth am y weithdrefn gwyno.

Roedd blwch awgrymiadau ar ddesg y dderbynfa gyda holiadur adborth byr ar gyfer cleifion. Er nad oedd unrhywbeth o'i le gyda'r holiadur hwn, gwnaethom awgrymu y gellid ei wella drwy ychwanegu lle i gleifion nodi sylwadau ychwanegol. Byddai hyn yn galluogi cleifion i fynegi eu barn yn rhydd. Cytunodd y practis i wneud y newid hwn.

Yng nghofnodion y practis, gwelsom sampl o holiaduron adborth cleifion a gwblhawyd yn ddiweddar. Dywedodd staff wrthym fod sylwadau cleifion yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff, a rhoddwyd enghraifft o sut y gweithredid ar adborth cleifion. Esboniodd y prif ddeintydd fod y practis wedi rhoi arwyddion 'gwyliwch eich pen' a phadiau sbwng ar nenfydau isel ar y grisiau er mwyn stopio cleifion rhag brifo eu hunain, yn sgil cwynion gan gleifion. Gwnaethom gydnabod nad oedd llawer y gallai'r practis ei wneud i wella'r broblem, o ystyried oedran a chynllun cul yr adeilad. Gellid trin cleifion ag anawsterau symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn y ddeintyddfa ar y llawr daear.

Gwelsom dystiolaeth o gynnal archwiliadau barn cleifion, lle gofynnwyd i sampl o gleifion a welwyd gan ddeintydd penodol gwblhau holiadur adborth. Trafodwyd y canlyniadau ymysg y tîm staff, a hysbyswyd y deintyddion am safbwyntiau'r cleifion. Roedd hon yn enghraifft dda o sut roedd y practis yn casglu barn cleifion ac yn gwerthuso ansawdd y gwasanaeth yr oeddent yn ei ddarparu.

Dywedodd staff wrthym eu bod defnyddio *Language Line* (gwasanaeth cyfieithu) o bryd i'w gilydd i gleifion nad oeddent yn medru'r Saesneg. Roedd poster ar gyfer *Language Line* wedi'i leoli yn y dderbynfa, ac roedd gan staff y dderbynfa gopi wrth y ffôn. Roedd hyn yn golygu bod cleifion nad oeddent yn

siaradwyr Saesneg iaith gyntaf yn gallu cyfathrebu eu hanghenion i'r staff yn llwyddiannus gan ddefnyddio cyfieithydd.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Canfuom fod y practis yn darparu gwasanaeth diogel i gleifion a bod ganddo systemau addas i amddiffyn cleifion rhag croes-heintiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf ar gyfer pob deintydd a chanfuom eu bod yn gynhwysfawr a bod eu harddull yn debyg. Golyga hyn bod triniaethau cleifion yn cael eu cofnodi'n gyson yn y practis, gan sicrhau dilyniant o ran gofal os oedd yn rhaid i glaf gael ei weld gan ddeintydd arall. Gwnaethom sylwi hefyd bod y practis yn defnyddio system codau lliw coch/melyn/gwyrdd ar gofnodion cleifion er mwyn ei wneud yn hawdd nodi cleifion y mae angen rhoi sylw ychwanegol iddynt. Canfuom fod system dda ar waith i sicrhau bod hanes meddygol cleifion yn cael ei wirio ym mhob apwyntiad.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau perthnasol ar gael ac yn gyfredol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofi, a hyfforddiant staff.

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau priodol pe bai argyfwng (cwmpo) yn digwydd i glaf yn y practis. Roedd y rhain wedi eu lleoli ar y llawr daear. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis ystyried pa mor hawdd ydyw i gario'r offer dadebru o'r llawr daear i'r deintyddfeydd i fyny'r grisiau. Roedd system addas ar waith i waredu cyffuriau y mae eu hoes wedi darfu a rhoi rhai newydd yn eu lle gan ddefnyddio rhestr wirio a oedd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Roedd silindrau ocsigen hefyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u lefelau'n cael eu nodi. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod glwcagon (cyffur a ddefnyddir i gleifion â diabetes y mae eu lefelau glwcos gwaed yn beryglus o isel) yn cael ei storio ar wahân i weddill y cyffuriau brys, yn yr oergell i fyny'r grisiau. Gallai hyn achosi oedi o ran trin cleifion mewn argyfwng.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried y risg bosibl i gleifion, pe bai argyfwng yn codi, o ganlyniad i wahanu cyffuriau ac offer dadebru. Dylai'r practis ymgynghori â'r gwneuthurwr ynglyn â storio glwcagon a ph'un a oes angen iddo gael ei storio mewn oergell.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i drin, storio a gwaredu â gwastraff peryglus. Roedd contract cyfredol ar waith ar gyfer gwaredu â gwastraff clinigol. Gwelsom hefyd fod y cwmni gwaredu gwastraff wedi cynnal archwiliad trin gwastraff. Dywedodd y practis wrthym fod yr archwiliad hwn wedi eu helpu i newid rhai arferion er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf.

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol. Roedd cyfleusterau priodol i olchi dwylo, ac eitemau untro, ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwnaethom wyllo dwy nyrs yn cwblhau'r gylchred lanhau a chanfuom fod y system yn foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y nyrsys wedi ymdrin â'r cyfarpar diogelu yr oeddent yn ei wisgo (e.e. menig) yn yr un ffordd wrth gyflawni'r broses hon.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ba gyfarpar diogelu personol y mae angen iddynt ei wisgo wrth lanhau a dadheintio offer.

Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu storio, a'u cludo o amgylch y practis, mewn ffordd addas. Cadwyd cofnodion gorfodol yn ymwneud â dadheintio, ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn cyflwr da yn amlwg. Fodd bynnag, canfuom fod deunydd domestig yn cael ei ddefnyddio er mwyn profi darn o offer glanhau, ac mae'n bosibl nad yw mor ddibynadwy â deunydd a ddyluniwyd at y diben.

Argymhelliad

Gweler Atodiad A am argymhellion ynghylch y deunydd y dylid ei ddefnyddio i brofi offer glanhau.

Dywedodd y practis wrthym fod un o'r deintyddion yn aros am gymeradwyaeth derfynol cyn dechrau darparu triniaethau am fewnblaniadau deintyddol. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried yn ofalus y camau atal a rheoli heintiau sydd eu hangen, o bosibl, ar gyfer y driniaeth hon, er mwyn parhau i amddiffyn cleifion rhag y risg o heintiau.

Er bod y practis wedi cymryd camau tuag at wella'r broses ddadheintio, megis gosod ystafell ddadheintio benodedig a chynnal archwiliadau rheoli heintiau, dylent ddatblygu cynllun er mwyn ymgynhyrchu at fabwysiadu arferion gorau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru³ (WHTM) 01-05.

³ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn set o ganllawiau sydd â'r nod o wella ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a deintyddol.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu cynllun ar sut y byddant yn ymggyrraedd at fabwysiadu arferion gorau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob deintyddfa yn y practis ac roeddent yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion a staff. Fodd bynnag, gwelsom fod angen uwchraddio cadair y cleifion yn y ddeintyddfa i fyny'r grisiau er mwyn galluogi gwaith dadheintio effeithiol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau y gwneir gwelliannau i gadair y cleifion yn y ddeintyddfa i fyny'r grisiau, er mwyn galluogi gwaith dadheintio effeithiol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gan reolwr y practis a'r prif ddeintydd, ac roedd ganddo systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.

Daeth y practis i feddiant y perchennog newydd, y prif ddeintydd, ym mis Ionawr 2013. Mae Gentle Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion GIG yn bennaf, gyda nifer fach o gleifion preifat. Mae'r practis yn cael ei redeg yn dda gan reolwr y practis a'r prif ddeintydd.

Roeddem yn teimlo bod rheolwr y practis a'r prif ddeintydd yn rheoli ac yn arwain y tîm staff yn dda. Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus yn eu swyddi, eu bod yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi, a'u bod yn rhydd i fynegi unrhyw bryderon.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn fisol, ac roedd amrywiaeth o faterion yn cael eu trafod. Gwelsom sampl o gofnodion y cyfarfodydd i gadarnhau hyn. Er enghraifft, mewn cyfarfod staff cafodd y staff eu hatgoffa o bwysigrwydd defnyddio'r cyfarpar cywir wrth gario unrhyw offer. Rhoddodd y prif ddeintydd enghreifftiau o'r gwersi a ddysgwyd yn y practis. Er enghraifft, wedi i un o'r staff nyrsio gael ei anafu gan nodwydd, newidiwyd yr arferion fel bod y deintyddion yn gyfrifol am drin nodwyddau wedi iddynt gael eu defnyddio, ac am gael gwared arnynt, yn hytrach na'r nyrsys.

Canfuom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol. Roedd gan y practis system addas ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a bod staff yn ymwybodol ohonynt. Roedd y ddeintyddfa'n cofnodi unrhyw ddigwyddiadau ac anafiadau i staff a chleifion mewn llyfr damweiniau priodol.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant, a'u bod yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau er mwyn iddynt barhau i ddatblygu'n broffesiynol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff, ac roedd y rhain yn cadarnhau bod gan staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynnal arfarniadau staff blynyddol, a chadarnhaodd staff fod arfarniadau wedi digwydd.

Roedd rhaglenni cynefino ar gyfer staff newydd a staff dros dro. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym mai dim ond o bryd i'w gilydd y defnyddid staff asiantaeth. Fodd bynnag, roeddent yn bwriadu cyflogi deintydd locwm tra bod y prif ddeintydd ar ei chyfnod mamolaeth. Gwnaethom drafod yr hyn y byddai'n rhaid ei ystyried er mwyn sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth barhaus tra bod y prif

ddeintydd i ffwrdd. Roedd trefniadau goruchwyllo parhaus ar waith ar gyfer staff dan hyfforddiant ar gyfer y cyfnod hwn.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth o roi brechiadau hepatitis B a chofnodion imiwnedd yn y ffeiliau staff, a golyga hyn bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig iawn ac yn teimlo'n gadarnhaol am y practis a'r tîm deintyddol. Roedd y deintydd hefyd yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan y prif ddeintydd, a dywedon nhw eu bod wedi gwella eu ffordd o weithio o'r herwydd.

Gwelsom fod y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd angen i'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion gyd-fynd â gweithdrefn gwyno'r GIG 'Gweithio i Wella'⁴. Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â hyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cofnodion cwynion a gedwir gan y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr holl gwynion hyd hynny wedi dod drwy'r bwrdd iechyd, yn hytrach na chael eu gwneud yn uniongyrchol i'r practis. Nid oedd yr holl ohebiaeth yn cael ei chadw yn y ffeil gwynion. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid cadw'r holl ohebiaeth sy'n ymwneud â chwynion (gan gynnwys e-byst a galwadau ffôn) gyda'i gilydd, ac y dylid cofnodi'n glir y camau gweithredu a wnaed, er mwyn eu gwneud yn haws i'w hadolygu.

⁴ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru, ac ymateb iddynt.

Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuom fod y practis yn lân a thaclus yn gyffredinol, a'i fod yn amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Gwnaethom nodi bod y practis yn cael ei gyfyngu gan gynllun yr adeilad.

Lleolir y practis mewn tŷ tref yn y brif ardal siopa yng nghanol tref Aberdâr. Mae'r adeilad yn cynnwys pedwar llawr, gan gynnwys islawr a nenlofft a ddefnyddir i storio pethau. Nid oedd lleoedd parcio neilltuedig ar safle'r practis, ond roedd lleoedd parcio ar gael mewn meysydd parcio gerllaw. Roedd lleoedd parcio ar gael i bobl anabl gyferbyn â'r practis, ar ochr arall y ffordd.

Gwnaethom sylwi bod enwau deintyddion y practis wedi eu harddangos ar ddrws yr adeilad, yn ogystal â rhifau y tu allan i oriau ac amserau agor. Fodd bynnag, nid oedd rhifau cofrestru Cyngor Deintyddol Cyffredinol y deintyddion yn cael eu harddangos yn y practis yn unol â'r canllawiau.

Mae modd i bobl mewn cadair olwyn gael mynediad at y practis, oherwydd mae'r drysau i mewn i'r adeilad, a man aros y cleifion, yn ddigon llydan. Fodd bynnag, roedd grisyn bach y tu allan i'r drws ffrynt. Mae'r dderbynfa, y brif ystafell aros, a deintyddfa fawr ar y llawr daear. Mae pob rhan o'r llawr daear ar yr un lefel, a golyga hyn ei fod yn hawdd i gleifion ag anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn eu cyrraedd. Mae gan y llawr cyntaf ddwy ddeintyddfa arall, a gofod bach ar ben y grisiau a ddefnyddir fel ail ystafell aros i gleifion. Mae'r ail lawr yn cael ei ddefnyddio gan staff yn unig, ac yn cynnwys cegin, swyddfa, storfa a lle i'r staff eistedd.

Dywedodd y staff wrthym y cafwyd gwelliannau i ran fewnol yr adeilad ers i berchnogion newydd y practis gyrraedd, gan gynnwys rhoi carpet newydd ar y grisiau ac ystafell aros y llawr cyntaf, a gosod hysbysfyrddau i'r cleifion. Gosodwyd ystafell ddadheintio benodedig, a rhoddwyd cadair newydd yn un o'r deintyddfeydd.

Canfuom fod y practis yn lân a thaclus, ac roedd y system wresogi a'r goleuadau'n addas. Roedd yr ystafell aros a'r dderbynfa ar y llawr daear yn fawr a dymunol. Fodd bynnag, o ganlyniad i oedran a chynllun yr adeilad, roedd yn rhaid i gleifion ddringo grisiau cul i gyrraedd y deintyddfeydd i fyny'r grisiau.

Canfuom fod y man aros i fyny'r grisiau'n rhy fach ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod yn aml yn gofyn i gleifion aros yn yr ystafell aros fawr ar y llawr daear. Roedd y seddi yn y man aros i fyny'r grisiau wedi eu lleoli wrth ymyl grisiau serth yn arwain i lawr at yr allanfa dân brys ar lefel y stryd. Teimlai'r practis bod risg y gallai plant gwympo i lawr y grisiau, ac felly roeddent wedi gosod clwyd fach bren ar dop y grisiau. Er

bod hyn yn atal y risg o blant yn cael eu hanafu, roedd y glwyd a'r dodrefn yn y gofod ar dop y grisiau yn rhwystro pobl rhag cyrraedd yr allanfa dân. Cytunodd y practis i symud y glwyd a'r dodrefn allan o'r ffordd. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid defnyddio'r ystafell aros i lawr y grisiau yn unig, ac y dylid galw cleifion i fyny'r grisiau am eu hapwyntiad er mwyn lleihau'r risg o gleifion (yn enwedig plant) yn anafu eu hunain ar y grisiau.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl allanfeydd tân yn rhydd rhag rhwystrau.

Mae toiled i gleifion i fyny'r grisiau, a lleolir toiled arall ar y llawr daear. Dywedwyd wrthym fod hwn yn doiled ar gyfer staff/pobl anabl. Nid oedd arwyddion ar gyfer toiled y cleifion yn y coridorau nac yn yr ystafell aros ar y llawr daear. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai cleifion a oedd yn llai cyfarwydd â'r practis yn gallu dod o hyd i'r toiled yn rhwydd.

Gwnaethom nodi bod y toiled ar y llawr daear yn fach ac y byddai'n anodd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn ei ddefnyddio, am fod lle yn gyfyng ynddo, a chan nad oedd canllawiau i helpu pobl i eistedd ar y toiled neu sefyll. Dylai'r practis osod canllawiau priodol a larwm argyfwng, os mai'r nod yw parhau i ddefnyddio'r toiled hwn fel toiled i bobl anabl.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw doiled a neilltuir ar gyfer cleifion anabl yn addas iddynt ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân a chafodd y diffoddwyr tân ar y llawr daear a'r llawr cyntaf eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd camau diogelwch addas ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb ei awdurdodi. Canfuom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel yn y ddeintyddfa a bod copi wrth gefn o gofnodion electronig yn cael ei wneud ar weinydd ar wahân bob dydd. Golyga hyn bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth.

Roedd hysbysfwrdd i gleifion wedi'i leoli yn y dderbynfa, ac roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth hyrwyddo iechyd berthnasol yn ymwneud â chanser y geg, deiet, glanhau dannedd a defnyddio edau dannedd. Roedd y posteri hyn hefyd yn defnyddio lluniau i wneud y wybodaeth yn fwy hygyrch i gleifion. Dywedwyd wrthym fod taflenni hyrwyddo iechyd, gan gynnwys cyngor ar lanhau dannedd i blant yn Gymraeg a Saesneg, yn cael eu rhoi i'r cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur sut a phryd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Gentle Dental Aberdâr, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwelliannau

Practis: Gentle Dental Aberdâr

Dyddiad yr Arolygiad: 9 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9	Dylai'r practis ystyried y risg bosibl i gleifion, pe bai argyfwng yn codi, o ganlyniad i wahanu cyffuriau ac offer dadebru. Dylai'r practis ymgynghori â'r gwneuthurwr ynglŷn â storio glwcagon a ph'un a oes angen iddo gael ei storio mewn oergell.	Mae'r practis wedi ymchwilio i sut y dylid storio glwcagon, ac wedi darganfod nad oes angen ei storio yn yr oergell. Rydym wedi gosod y glwcagon yn y blwch argyfwng ynghyd â'r cyffuriau ac offer eraill.	Parul Sood	Wedi'i wneud
10	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ba gyfarpar diogelu personol y mae angen iddynt ei wisgo wrth lanhau a dadheintio offer.	Mae'r practis wedi cwblhau cwrs ar Reoli Heintiau. Rydym bob amser yn annog ein staff i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol mewn ffordd briodol yn yr ystafell ddadheintio. Atgoffir y	Parul Sood	Wedi'i wneud

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		staff yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff hefyd. Mae'r nyrsys wedi cael eu hatgoffa eto yn dilyn yr argymhelliad hwn.		
11	Dylai'r practis ddefnyddio stripiau ffoil wrth brofi'r bath uwchsonig, er mwyn sicrhau bod y prawf hwn yn ddibynadwy.	Rydym wedi archebu stripiau ffoil safonol i'w defnyddio wrth brofi dibynadwyedd y bath uwchsonig.	Rahul Sood	2 wythnos
11	Dylai'r practis ddatblygu cynllun o sut y byddant yn ymgynhyrchu at fabwysiadu arferion gorau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Mae'r practis wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu arferion gorau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud, fodd bynnag mae angen cynllun ysgrifenedig ar y practis.	Parul Sood	1 mis
11	Dylai'r practis sicrhau y gwneir gwelliannau i gadair y cleifion yn y ddeintyddfa i fyny'r grisïau, er mwyn galluogi gwaith dadheintio effeithiol.	Cynlluniau ar gyfer cadair triniaeth ddeintyddol yn y ddeintyddfa sydd i fyny'r grisïau. Rydym hefyd wedi gofyn i beiriannydd ail-glustogi'r gadair.	Rahul Sood	6 i 12 o fisoedd am gadair newydd, 2-4 o wythnosau ar gyfer ail-glustogi.
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
13	Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.	Rydym wedi diweddarau'r weithdrefn gwyno.	Rahul Sood	Wedi'i wneud

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
15	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl allanfeydd tân yn rhydd rhag rhwystrau.	Mae'r holl allanfeydd tân bellach yn rhydd rhag rhwystrau.	Rahul Sood	Wedi'i wneud
15	Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw doiled a neilltuir ar gyfer cleifion anabl yn addas iddynt ei ddefnyddio'n ddiogel.	Byddwn yn cael cyngor ynglŷn â ph'un a all y toiled gael cyfleusterau anabl. Os oes modd, byddwn yn gosod y cyfleusterau.	Rahul Sood	3-6 o fisoedd

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):Parul Sood.....

Teitl:Deintydd.....

Llofnod:Parul Sood.....

Dyddiad:18 Ionawr 2015.....